# Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2022

## Adroddiad Ton y gwanwyn

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
34/2022
DYDDIAD CYHOEDDI:
28/04/2022



Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

ISBN Digidol: 978-1-80364-088-4

© Hawlfraint y Goron 2022

Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2022: Adroddiad Ton y gwanwyn

Anthony Lydall, Strategic Research and Insight

Barn yr ymchwilydd ac nid barn Llywodraeth Cymru o reidrwydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â:
Thîm Ymchwil a Mewnwelediadau
Croeso Cymru
Grŵp Economi, Sgiliau ac Adnoddau Naturiol
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: twristiaethymchwil@llyw.cymru

This document is also available in English.
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

ISBN: 978-1-80364-088-4
28 Ebrill 2022
© Hawlfraint y Goron 2022

## Cynnwys

1. Prif Ganfyddiadau ..... 2
2. Cefndir a Methodoleg ..... 3
3. Perfformiad Hyd yn Hyn ..... 4
4. Archebu Ymlaen Llaw ar gyfer y Pasg, mis Mai a dechrau mis Mehefin ..... 6
5. Busnes Tymhorol ..... 9
6. Recriwtio ..... 11
7. Gweithredu'n Gynaliadwy ..... 13
8. Hyder ..... 15
9. Rhesymau dros fod yn bositif neu'n bryderus ..... 16

# 1. Prif Ganfyddiadau

**Dechrau eithaf araf i'r flwyddyn i rai**

1.1 Mae rhai busnesau sydd wedi bod ar agor rhwng y flwyddyn newydd a chanol mis Mawrth wedi cael dechrau eithaf araf i 2022. Mae tuag un o bob pump (21%) wedi cael mwy o gwsmeriaid y flwyddyn hyd yn hyn o gymharu â'r un cyfnod mewn blwyddyn 'arferol', ac mae tua hanner (47%) wedi cael yr un lefel o gwsmeriaid. Mae tuag un o bob tri (32%) wedi gweld gostyngiad.

1.2 Mae cyfyngiadau parhaus COVID-19 ar ddechrau'r flwyddyn yn un o'r prif resymau y tu ôl i'r dechrau araf, ac mae stormydd y gaeaf hefyd wedi amharu ar fusnes i rai.

**Mae'r Pasg, mis Mai a dechrau mis Mehefin yn edrych yn weddol addawol yn seiliedig ar archebion ymlaen llaw**

1.3 Mae cyfartaledd y capasiti a archebwyd ar gyfer gwyliau'r Pasg ymhlith gweithredwyr llety tua 68%, ac mae'n 54% ar gyfer mis Mai a dechrau mis Mehefin. Mae rhai yn dweud bod y duedd ers dechrau COVID-19 i archebu lle ar y funud olaf yn golygu y gallai deiliadaeth ar gyfer y cyfnodau hynny godi'n sylweddol o hyd. Fodd bynnag, ers COVID-19, mae tuedd hefyd i ganslo archebion, ac felly mae'n anodd rhagweld y darlun cywir.

**Rhesymau i fod yn bositif am eleni**

1.4 'Cyfyngiadau COVID-19 yn dod i ben / y pandemig yn gostegu' yw'r rheswm heb anogaeth a grybwyllwyd amlaf (31%) i fod yn gadarnhaol am fusnes eleni. Dilynir hyn gan lefelau uchel disgwyliedig (ond heb eu derbyn eto) o archebion yn y DU (23%) a lefelau uchel o gwsmeriaid sy'n dychwelyd (20%).

**Mae costau cynyddol yn gwneud i COVID-19 edrych fel hen newyddion**

1.5 Mae pris ynni a llawer o eitemau eraill wedi cynyddu gymaint mewn byr amser, nes bod COVID-19, sydd wedi rheoli ein bywydau am y ddwy flynedd ddiwethaf, bellach yn ymddangos yn fater eilradd. Mae 43%, heb anogaeth, yn nodi costau ynni cynyddol fel pryder penodol, ac mae 31% yn nodi costau cynyddol heblaw ynni. O gymharu â hynny, dim ond 12% (heb anogaeth) yn poeni y bydd cyfyngiadau COVID-19 yn cael eu hailgyflwyno.

**Hyder am y flwyddyn hon**

1.6 Mae tua chwarter (27%) y gweithredwyr yn 'hyderus iawn' ynglŷn â chynnal y busnes yn broffidiol eleni, ac mae 47% arall yn 'eithaf hyderus'. Yn gyffredinol, mae gweithredwyr yn disgwyl i nifer yr ymwelwyr fod yn uchel eleni, yn enwedig o'r DU, ond mae costau gweithredu cynyddol yn gwasgu ar broffidioldeb.

## 2. Cefndir a Methodoleg

### Beth yw Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru?

2.1 Dyluniwyd Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru i roi adborth cyflym ar sut mae'r diwydiant twristiaeth yng Nghymru yn perfformio ar adegau allweddol yn ystod y flwyddyn. Mae'r don hon yn ymwneud â gwanwyn 2022.

### Sut y cynhaliwyd yr arolwg?

2.2 Rydym wedi cynnal 900 o gyfweliadau dros y ffôn. Mae canlyniadau'r cwestiynau a ofynnir i bawb yn gywir i ± 3.3%. Mae'r sampl yn adlewyrchu'n fras y diwydiant twristiaeth yng Nghymru ac fe'i dangosir isod yn ôl sector a rhanbarth.


| Sector / Rhanbarth | Gogledd | Canolbarth | De-orllewin | De-ddwyrain | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Llety â gwasanaeth | 135 | 34 | 75 | 52 | **296** |
| Hunanarlwyo | 77 | 45 | 93 | 41 | **256** |
| Meysydd gwersylla / carafannau | 47 | 21 | 31 | 16 | **115** |
| Hostelau | 2 | 7 | 7 | 6 | **22** |
| Atyniadau | 27 | 15 | 16 | 26 | **84** |
| Gweithredwyr gwasanaethau | 18 | 10 | 12 | 2 | **42** |
| Bwytai / tafarndai / caffis | 17 | 28 | 18 | 22 | **85** |
| **Cyfanswm** | **323** | **160** | **252** | **165** | **900** |

2.3 Mae 57% o'r busnesau yn y sampl yn cael eu graddio gan Croeso Cymru. Mae'r samplau wedi'u graddio a heb eu graddio wedi'u gwasgaru ar draws y gwahanol ranbarthau a sectorau ac eithrio bwytai / tafarndai / caffis, lle nad yw graddio yn berthnasol.

2.4 Cynhaliwyd pob cyfweliad dros y ffôn gyda pherchnogion neu reolwyr busnesau rhwng 14 a 25 Mawrth.

3. **Perfformiad Hyd yn Hyn**

## Perfformiad hyd yn hyn yn 2022



*Gofynnwyd C2 i'r 703 o fusnesau yn y sampl o 900 sydd wedi bod ar agor eleni hyd yn hyn*

### Dechrau eithaf araf i'r flwyddyn i rai

3.1 Mae rhai busnesau sydd wedi bod ar agor am rywfaint o'r cyfnod rhwng y flwyddyn newydd a chanol mis Mawrth wedi cael dechrau eithaf araf i 2022. Mae cyfyngiadau parhaus COVID-19 ar ddechrau'r flwyddyn yn un o'r prif rhesymau y tu ôl i'r dechreuad araf. Mae capasiti gweithredu wedi cyfyngu ar nifer y cwsmeriaid ar gyfer rhai, ac nid yw rhai mathau o ddigwyddiadau wedi cael eu cynnal o gwbl.

*"Hwn fyddai'n mis Ionawr prysuraf erioed ond daeth y cyfyngiadau i rym a bu'n rhaid canslo priodasau."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Cawsom ein cyfyngu i gael deg cwsmer yn unig i mewn ar unwaith. Ond fe ddylai lacio ychydig yn ystod y mis nesaf."*
Atyniad, De-orllewin

*"Roedd y flwyddyn newydd yn fethiant llwyr oherwydd y cyfyngiadau - dim cerddoriaeth, dim dawnsio"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

### Stormydd y gaeaf

3.2 Mae'r stormydd garw yn ystod y gaeaf wedi amharu ar fusnes rhai gweithredwyr.

*"Mae'r stormydd garw iawn y gaeaf hwn yn golygu ein bod yn aildrefnu nifer o bethau"*
Gweithredwr gweithgareddau, Gogledd

*"Rydym ar gau ar hyn o bryd oherwydd difrod sylweddol i'r adeilad"*
Atyniad, Gogledd


### Ond dechrau da i'r flwyddyn i rai

3.3 Mae tuag un o bob pump (21%) o weithredwyr wedi gweld mwy o gwsmeriaid nag arfer ar gyfer y cyfnod cynnar hwn yn y flwyddyn ac yn hapus gyda'r ffordd mae busnes yn mynd.

*"Gwelwyd ffigurau'n debyg i'r cyfnod cyn COVID-19 y gaeaf hwn"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Rydym wedi cael llif cyson o gwsmeriaid dros y gaeaf, gyda chynnydd yn y niferoedd ar ddiwrnodau rygbi"*
Caffi, De-ddwyrain

## Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth





*Gofynnwyd C2 i'r 703 o fusnesau yn y sampl o 900 sydd wedi bod ar agor hyd yma eleni*

### Mae De-orllewin Cymru wedi perfformio'n well na'r rhanbarthau eraill hyd yn hyn

3.4 De-orllewin Cymru yw'r unig ranbarth lle mae cyfran y gweithredwyr a welodd gynnydd yn eu busnesau (24%) yn debyg i'r gyfran a welodd ostyngiad (29%).

## 4. Archebu Ymlaen Llaw ar gyfer y Pasg, mis Mai a dechrau mis Mehefin

### Archebion ymlaen llaw ar gyfer y Pasg




*Gofynnwyd C3 i weithredwyr llety sy'n cymryd archebion*

**Tua dwy ran o dair yn llawn ar gyfer y Pasg**

4.1 Mae'r ddeiliadaeth a archebwyd ar gyfartaledd ar gyfer gwyliau'r Pasg oddeutu 68%. Mae amrywiad fesul sector, gyda meysydd carafannau yn edrych yn arbennig o brysur a deiliadaeth mewn llety â gwasanaeth ychydig y tu ôl i'r sectorau eraill.

4.2 Mae cyfartaledd y ddeiliadaeth yn Ne-ddwyrain Cymru oddeutu 73% - o flaen y rhanbarthau eraill (67%).

**Mae archebu ar y funud olaf yn gwneud y darlun yn un anodd i'w ddehongli**

4.3 Mae rhai gweithredwyr yn nodi bod archebion ymlaen llaw yn rhoi darlun rhannol yn unig o'r cyfnod sydd i ddod. Mae'n ymddangos bod tueddiadau archebu wedi dod yn fwy munud olaf yn ystod y pandemig, ac mae'n ymddangos bod y duedd yn parhau am y tro, er bod COVID-19 yn llai o reswm dros beidio ag archebu nag yr oedd o'r blaen. Mae'r tywydd a chostau byw cynyddol yn rhesymau allweddol pam bod defnyddwyr yn aros yn hirach cyn ymrwymo.

*"Rydym yn meddwl y byddwn ni'n cael llawer o archebion munud olaf oherwydd pris popeth – tanwydd ac ynni"*
Hunanarlwyo, Gogledd

*"Yn gyffredinol, mae pobl yn archebu'n hwyr gyda ni – e.e. wythnos cyn cyrraedd – felly nid yw archebion ymlaen llaw yn gynrychiolaeth gywir o'r hyn y byddwn yn ei weld yn ystod y cyfnod"*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

*"Rydym yn gweld bod llawer mwy o archebion munud olaf wedi bod ers y pandemig"*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Mae pobl yn archebu funud olaf. Maen nhw'n aros i weld sut fydd y tywydd. Os bydd y tywydd yn braf, fe ddaw'r bobl."*
Hunanarlwyo, Gogledd

## Archebu ymlaen llaw ar gyfer mis Mai a dechrau mis Mehefin

**C4 "Faint o'ch capasiti sydd ar gael sydd wedi'i archebu ar gyfer Mai a dechrau Mehefin?" *(dangos cyfartaledd deiliadaeth)***




*Gofynnwyd C4 i weithredwyr llety sy'n cymryd archebion*

### Mae stoc gwelyau tua hanner llawn ar gyfer mis Mai a dechrau mis Mehefin

4.4 Mae eleni yn cynnwys Gŵyl y Banc ar gyfer y Jiwbilî Platinwm ddydd Gwener, 3 Mehefin yn dilyn gŵyl y banc y gwanwyn a newidiwyd i ddydd Iau, 2 Mehefin i ffurfio penwythnos hir. Yn y rhan fwyaf o achosion mae hyn hefyd yn cyd-fynd â gwyliau hanner tymor yr ysgolion.

4.5 Mae'r ddeiliadaeth a archebwyd ar gyfer mis Mai a dechrau mis Mehefin oddeutu 54% ar hyn o bryd. Yn yr un modd ag archebion ar gyfer y Pasg, mae meysydd carafannau a gwersylla yn edrych yn brysurach na'r sectorau eraill fel y mae ar hyn o bryd.

### Gall archebion munud olaf newid y darlun yn sylweddol

4.6 Yn yr un modd â'r Pasg, gallai perfformiad y diwydiant newid yn sylweddol eto ym mis Mai a dechrau mis Mehefin wrth i'r archebion munud olaf disgwyliedig gael eu trefnu yn llawer nes at yr amser.

*"Rydym yn cymryd llawer o archebion hwyr felly mae'n debygol y byddwn yn llawn yn nes at yr amser"*
Hunanarlwyo, De-ddwyrain

*“Mae pobl yn dal yn ôl rhag archebu hyd at ryw fis ynghynt. Ar gyfer mis Awst, rydyn ni ar ddeiliadaeth o 20%, ond mae'r misoedd nesaf yn llenwi.”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

**Gall canslo hefyd newid y darlun**

4.7 Er y gall archebion munud olaf wella prysurdeb y diwydiant twristiaeth yn sydyn, gall y duedd gynyddol o ganslo ers dechrau COVID-19 ei anfon y ffordd arall. Felly, mae'n anodd ceisio rhagweld beth fydd yn digwydd yn y dyfodol.

*“Mae'n ymddangos yn flêr eleni … mae pobl yn archebu ond gyda'r syniad o ganslo mewn golwg … Mae Booking.com yn rhoi polisïau di-risg i bobl ond nid dyna fy mholisi i. Nid oes angen i westeion dalu tan y diwrnod maen nhw’n cyrraedd bellach.”*
Hunanarlwyo, De-orllewin

**Mae'r penwythnosau'n llenwi, ond nid canol yr wythnos**

4.8 Un tueddiad amlwg arall ar hyn o bryd yw er bod penwythnosau yn cael eu harchebu, mae dyddiau'r wythnos i'w gweld yn anoddach i'w llenwi ymlaen llaw. Seibiannau byr yn hytrach na gwyliau sy'n cael eu harchebu yn aml.

*“Mae'r lleoedd sydd wedi'u harchebu ar gyfer mis Mai a dechrau mis Mehefin ar gyfer y penwythnosau'n unig"*
Llety â gwasanaeth, De-ddwyrain

*"Nid yw pobl yn dod am arosiadau hir ... mae'r penwythnosau'n cael eu gwerthu ond nid canol yr wythnos"*
Hunanarlwyo, De-orllewin

“Mae gostyngiad yn yr archebion eleni o gymharu â’r llynedd. Rwy'n cael trafferth gyda chanol yr wythnos. Mae’r penwythnosau yn iawn.”
Llety â gwasanaeth, Gogledd

**Gwahaniaethau yn ôl rhanbarth**


4.9 Tra bod De-ddwyrain Cymru yn gwneud yn well na'r rhanbarthau eraill gydag archebion ymlaen llaw ar gyfer y Pasg, mae'r gwrthwyneb yn wir ar gyfer mis Mai a dechrau mis Mehefin. Mae lefelau deiliadaeth a archebwyd ar gyfartaledd fesul rhanbarth fel a ganlyn:

- Gogledd: 60%
- Canolbarth: 57%
- De-orllewin: 50%
- De-ddwyrain: 45%

## 5. Busnes Tymhorol

### Lefel yr awydd i lenwi misoedd tawelach

**C6 "A oes unrhyw fisoedd yn arbennig pan fydd gennych lefydd sbar fel arfer yr hoffech chi eu llenwi?"**




**Nid oes gan tua hanner ohonynt unrhyw ddiddordeb mewn llenwi lleoedd dros ben ar gyfer y misoedd tawelach**

5.1 Yn gyffredinol, nid yw'n ymddangos bod gweithredwyr yn cael gormod o drafferth wrth lenwi o fis Ebrill i fis Medi yn gynhwysedig, ac yna hoffai rhai ohonynt roi hwb i hanner oerach / tywyllach y cylch tymhorol 12 mis.

5.2 Fodd bynnag, dywed tua hanner y gweithredwyr (47%) eu bod yn iawn fel ag y maent. Mae llawer o fusnesau twristiaeth yng Nghymru yn cael eu rheoli gan berchnogion ac mae hyn yn aml yn golygu gweithio saith niwrnod yr wythnos yn ystod y tymor prysur. Gwerthfawrogir cael amser segur gan gwsmeriaid am rywfaint o'r flwyddyn mewn gwirionedd. Mae llawer o'r gwaith cynnal a chadw yn digwydd yn ystod misoedd tawelach y gaeaf.

*"Mae mis Ionawr a mis Chwefror fel arfer yn dawel ond rydym yn fodlon ar hynny gan ei fod yn rhoi amser i ni wneud unrhyw waith ar y fflat. Gwnaethom osod cegin newydd eleni."*
Hunanarlwyo, Gogledd

*"Rydym yn dawelach yn ystod misoedd y gaeaf ond nid oes ots gennym gan ein bod yn defnyddio'r misoedd hyn ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw"*
Maes carafannau, De-orllewin

**Rhai gwahaniaethau arwyddocaol fesul sector**

5.3 Mae gweithredwyr gweithgareddau yn fwy tebygol o fod eisiau cymorth i lenwi misoedd tawelach na'r sectorau eraill. Byddai tua thri o bob pedwar (76%) yn arbennig yn hoffi llenwi rhywfaint o'u capasiti dros ben – yn fwyaf cyffredin ym mis Rhagfyr (52%) a mis Ionawr (55%).

5.4 Bwytai / tafarndai / caffis yw'r sector nesaf sydd fwyaf tebygol (66%) o fod eisiau llenwi'r lleoedd gwag, yn enwedig ym mis Ionawr (mae 41% yn dweud hyn).


5.5 O fewn y sectorau llety, mae carafannau a gwersylla yn wahanol i'r lleill gan fod ganddynt fwy o ddiddordeb mewn llenwi'r cyfnodau rhwng y prif dymhorau yn hytrach na misoedd y gaeaf. Mae pob mis Mai, mis Mehefin, mis Medi a mis Hydref yn cael eu targedu ar gyfer mwy o ddeiliadaeth gan tuag un o bob saith gweithredwr meysydd carafannau a gwersylla.

**Mae mwy o angen ar Ganolbarth Cymru i lenwi'r misoedd tawelach**

5.6 Dywed tua dwy ran o dair (64%) o weithredwyr yn y canolbarth fod misoedd o gapasiti dros ben yr hoffent eu llenwi (misoedd y gaeaf yn bennaf). Mae hyn yn cymharu â 55% o fusnesau yng Ngogledd Cymru, 50% yn y De-orllewin a 46% yn y De-ddwyrain.

## 6. Recriwtio

## Swyddi gwag





### Mae rhai yn ceisio recriwtio

6.1 Mae 29% o fusnesau ar hyn o bryd yn ceisio llenwi swyddi gwag, boed yn barhaol a/neu'n dymhorol. Mae'r gyfran yn uwch ymhlith y canlynol:

- Bwytai / tafarndai / caffis (62%)
- Gweithredwyr gweithgareddau (50%)
- Llety â gwasanaeth (38%)

6.2 Yn ôl rhanbarth, mae'r gyfran sy'n bwriadu recriwtio yn is yn Ne-ddwyrain Cymru (19%) o gymharu â gweddill Cymru (31%).

## Anawsterau o ran recriwtio




*Gofynnwyd C8 i'r rhai sy'n chwilio am staff*

**Anawsterau parhaus i'r mwyafrif sydd angen staff newydd**

6.3 Gofynnwyd cwestiynau am anawsterau recriwtio y llynedd yn ystod tonnau'r baromedr yn yr hydref ac ym mis Mehefin. Nid yw'r darlun wedi newid, gyda 63% o'r rhai sy'n bwriadu recriwtio yn cael anawsterau sylweddol.

6.4 Rydym wedi archwilio'r rhesymau dros yr anhawster hwn mewn tonnau blaenorol, ac felly nid yw hyn wedi cael ei ailadrodd yma, ond mae sylwadau agored yn dangos yr un themâu o broblemau o ran denu pobl yn ôl i weithio yn y sector / gwaith o gwbl. Mae effeithiau anawsterau recriwtio ar fusnesau yn parhau i fod yn sylweddol, gyda rhai yn methu ag agor mor aml neu mor llawn ag y dymunant.

*"Rydym ar gau ar rai o ddyddiau'r wythnos am na allwn gael y staff. Rydym yn agor os ydym yn derbyn galwad ffôn ar gyfer grŵp o bobl, ond heblaw am hynny, rydym wedi gorfod cadw at y penwythnosau."*
Bwyty, Canolbarth

*"Rydym wedi bod i ffeiriau recriwtio, wedi cysylltu â'r holl asiantaethau gwahanol ac mae'n amhosib cael y staff sydd eu hangen arnom."*
Atyniad, De-ddwyrain

"Roedd pob plentyn eisiau swydd ar ddydd Sadwrn 30 mlynedd yn ôl. Bellach, maent yn cael arian wrth eu rhieni ac yn canolbwyntio ar eu haddysg. Yn sydyn, does neb eisiau cael ei weld yn gweithio mewn caffi"
Caffi, De-orllewin

*"Ar hyn o bryd, yr unig beth sy'n achosi trafferth yw ceisio dod o hyd i hyfforddwyr llawrydd gan ei bod yn ymddangos nad oes llawer o gwmpas. Mae busnesau eraill yn cipio'r rhai sydd o gwmpas ar unwaith."*
Gweithredwr gweithgareddau, Gogledd


*"Ni allwn ddod o hyd i unrhyw staff o gwbl, felly nid ydym yn ceisio llenwi swyddi gwag mwyach. Rydym yn ceisio defnyddio teulu a ffrindiau."*
Hunanarlwyo, Canolbarth

*"Mae'n anodd dod o hyd i gogyddion ac maent yn ddrud iawn, hyd yn oed y rhai sydd ddim cystal. Mae'n anodd iawn cael y boblogaeth leol Gymreig i weithio, felly mae'n rhaid i ni fynd ymhellach i ffwrdd i ddod o hyd i staff."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Mae dod o hyd i staff yn broblem enfawr. Nid ydynt yn dod i gyfweliad hyd yn oed – maent yn gwneud y cais er mwyn iddynt allu dangos hwnnw yn y swyddfa budd-daliadau [sic]."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

# 7. Gweithredu'n Gynaliadwy

## Arferion cynaliadwy




### Mae'r rhan fwyaf o fusnesau yn gwneud rhywbeth

7.1 Dywed tua thri o bob pedwar busnes (74%) eu bod yn gwneud rhywbeth i weithredu'n fwy cynaliadwy. Fesul sector, mae'r cyfrannau uchaf o fusnesau sy'n gwneud rhywbeth i'w cael ymhlith y canlynol:

- Bwytai / tafarndai / caffis (81%)
- Gweithredwyr gweithgareddau (81%)
- Llety â gwasanaeth (79%)

7.2 Fesul rhanbarth, mae busnesau yn y De-ddwyrain (83%) a Gogledd Cymru (79%) yn fwy tebygol o fod yn gwneud rhywbeth na'r rheini yn y De-orllewin (68%) a'r Canolbarth (66%).

**Lleihau'r ynni a'r gwastraff a gynhyrchir**

7.3 Mae adborth ar yr hyn y mae busnesau yn ei wneud yn cael ei lywio gan leihau'r hyn a gynhyrchir / a ddefnyddir - boed hynny'n ddeunyddiau neu'n ynni.

*"Rydyn ni'n cynnig system glanhau 'optio i mewn' i'r bobl sy'n aros llai na thridiau, felly does dim angen golchi tywelion mor aml. O ganlyniad i COVID-19, rydym bellach wedi dechrau system o archebu brecwast ymlaen llaw ac mae'r system hon yn sicrhau bod llai o wastraff bwyd."*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

*"Rydym yn gofyn i ymwelwyr roi eu deunydd ailgylchu i ni ac mae gennym finiau gwahanol ar gyfer popeth. Os ydym yn argraffu taflenni gwybodaeth, rydym yn eu cadw mor amwys â phosibl er mwyn eu defnyddio am gyfnod hirach o amser."*
Atyniad, De-orllewin

**Ffynonellau ynni cynaliadwy**

7.4 Yn ogystal â lleihau'r defnydd o ynni, mae rhai busnesau hefyd wedi ceisio dod o hyd i ffynonellau ynni mwy cynaliadwy fel ynni'r haul, ynni'r gwynt a biomas.

*"Mae gennym ni baneli solar ac fe wnaethom osod pympiau gwresogi o'r ddaear yn ystod y cyfnod clo. Mae pob un o'r deg cerbyd yn rhedeg ar fiodanwydd."*
Gweithredwr gweithgareddau, Gogledd

*"Yn y pen draw, rydym yn bwriadu creu fferm solar a dod yn gwbl hunangynhaliol"*
Atyniad, Gogledd

"Rydym yn defnyddio ein coed ein hunain yn ein boeler biomas i wresogi'r safle. Mae gennym ni baneli solar a dau dyrbin gwynt."
Hostel, Canolbarth


**Addysgu cwsmeriaid**

7.5 Mae rhai busnesau yn mynd ati i geisio addysgu eu cwsmeriaid i ymddwyn yn fwy cynaliadwy.

*"Rydym yn addysgu plant ysgol am yr amgylchedd. Rydym yn rhedeg ar linellau ecolegol. Dyma ein hethos a'n neges i blant."*
Gweithredwr gweithgareddau, Canolbarth

## 8. Hyder

### Hyder i redeg yn broffidiol eleni




**Optimistiaeth ofalus**

8.1 Dywed y mwyafrif o weithredwyr (74%) eu bod yn hyderus ynghylch rhedeg y busnes yn broffidiol eleni, er bod yr atebion yn tueddu i fod yn 'weddol hyderus' yn hytrach na 'hyderus iawn'. Mae'r atebion ar draws pob sector a rhanbarth yn debyg.

8.2 Ar yr ochr gadarnhaol, disgwylir i niferoedd yr ymwelwyr fod yn dda ar y cyfan - naill ai oherwydd bod archebion eisoes wedi'u gwneud neu oherwydd bod disgwyl archebion munud olaf. Tybir bod y gwaethaf o'r pandemig y tu ôl i ni nawr.

8.3 Fodd bynnag, caiff hyn ei wrthbwyso gan y cynnydd sylweddol mewn costau gweithredu, sy'n golygu y gallai llawer o fusnesau fod yn brysur eleni heb wneud elw, neu dim ond elw bach. Rydym yn trafod hyn yn fanylach o dan C12.

*"Dywedodd un o'n dosbarthwyr cwrw fod 76 tafarn allan o’r 89 tafarn maent yn dosbarthu iddynt ar eu colled. Rydym yn bryderus iawn am y costau gweithredu sy’n codi ar hyn o bryd.”*
Tafarn, Canolbarth


*“Mae ceffylau deirgwaith yn ddrytach, felly mae costau wedi cynyddu’n aruthrol a phrin yr ydym wedi codi’r prisiau, felly mae llai na 7% o elw.”*
Gweithredwr gweithgareddau, Gogledd

*“Rydym yn eithaf hapus gyda busnes eleni gan ein bod bron yn llawn hyd at fis Medi. Rydym yn hyderus y byddwn yn gwneud elw.”*
Hunanarlwyo, Gogledd

## 9. Rhesymau dros fod yn bositif neu'n bryderus

## Rhesymau dros fod yn bositif eleni

**C11 "A oes unrhyw resymau penodol dros fod yn gadarnhaol am fusnes eleni?" *(Heb annog)***




### Dysgu byw gyda COVID-19

9.1 Y rheswm a grybwyllir amlaf i fod yn gadarnhaol am fusnes eleni yw bod diwedd i'r mwyafrif o gyfyngiadau COVID-19 a bod y gwaethaf o'r pandemig y tu ôl i ni o'r diwedd. Er bod yr achosion yn cynyddu'n gyflym eto ar hyn o bryd, nid yw'r effaith ar fywyd bob dydd a thwristiaeth i'w gweld yn yr un modd ag yr oedd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.

*"Mae cwsmeriaid yn dysgu byw gyda COVID-19, felly rydyn ni'n disgwyl haf prysurach"*
Atyniad, Gogledd

*"Rydym yn edrych ymlaen at weld y cyfyngiadau yn dod i ben a lefel uchel o gwsmeriaid yn yr haf"*
Tafarn, Canolbarth

*"Gyda'r cyfyngiadau ar letygarwch yn cael eu llacio, rydyn ni'n bendant mewn gwell sefyllfa nag oedden ni'r adeg yma'r llynedd"*
Llety â gwasanaeth, De-orllewin

**Cwsmeriaid y DU yn dychwelyd**

9.2 Mae'r tri rheswm nesaf a grybwyllwyd amlaf i fod yn gadarnhaol yn gysylltiedig â'i gilydd. Mae rhai gweithredwyr yn disgwyl lefel uchel o gwsmeriaid o’r DU – naill ai drwy archebion a dderbyniwyd eisoes neu archebion y disgwylir iddynt gyrraedd. Mae rhai o'r cwsmeriaid hyn o’r DU yn rhai sy'n dychwelyd. Y gobaith yw bod cyfyngiadau teithio wedi arwain at newid parhaol yn newisiadau pobl y DU wrth iddynt ddewis cyrchfannau gwyliau, ond mae’n debyg ei bod yn rhy gynnar i ddweud a yw hynny’n wir.

*“Mae’n bosib y bydd pobl yn ymweld â Gorllewin Cymru unwaith y flwyddyn yn hytrach na mynd dramor ddwywaith. Mae’n ymddangos bod pobl wedi sylweddoli bod harddwch ar stepen eu drws."*
Bwyty, Canolbarth


*“Mae naw gwyliau wedi cael eu canslo yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf. Tybed a yw pobl yn mynd dramor yn lle? Mae pobl eraill yn dweud wrthyf eu bod yn dod eleni ond yn mynd dramor y flwyddyn nesaf”*
Hunanarlwyo, Gogledd

*“Cawsom gynnydd sylweddol mewn busnes y llynedd gan fod pobl yn cael gwyliau yn y DU ac rwy’n credu y bydd yr un peth yn digwydd eleni”*
Bwyty, Gogledd

*"O ganlyniad i'r argyfwng costau byw, rydym yn gobeithio bydd mwy o bobl yn cymryd gwyliau gartref a fydd yn arwain at fwy o gwsmeriaid dros yr haf. Dyna'r unig elfen gadarnhaol i ni eleni."*
Bwyty, y Canolbarth

*“Rydym yn gweld llawer o archebion rheolaidd sy’n dod gan gwsmeriaid sydd wedi ymweld â ni yn ystod y blynyddoedd diwethaf"*
Hunanarlwyo, Canolbarth

## Rhesymau i bryderu




### Mae costau cynyddol yn gwneud i COVID-19 edrych fel hen newyddion

9.3 Mae pris ynni a llawer o eitemau eraill wedi cynyddu gymaint mewn byr amser, nes bod COVID-19, sydd wedi rheoli ein bywydau am y ddwy flynedd ddiwethaf, bellach yn ymddangos yn fater eilradd. Bellach, mae'r gweithredwyr yn fwy pryderus o lawer am y costau cynyddol eleni.

9.4 Mae effeithiau costau / prisiau cynyddol ar dwristiaeth yn ddeublyg:

- Mae'n anoddach i fusnesau redeg yn broffidiol os na allant gynyddu eu prisiau eu hunain yn unol â hynny
- Mae eu cwsmeriaid yn teimlo bod arian yn brin hefyd ac felly mae'n bosibl na fyddant yn archebu, neu efallai y byddant yn gwario llai pan fyddant yno

*"Mae ein biliau ynni wedi mynd o £6,000 i £14,000 ac ni allwn ymdopi ag ef. Mae'n golygu y byddwn yn colli dros £100,000 y flwyddyn fel busnes."*
Tafarn, Canolbarth

*“Rydym wedi tynnu mis Rhagfyr a mis Ionawr oddi ar lyfrau’r asiantaeth oherwydd costau cynyddol ynni. Mae pobl wedi bod yn gadael y ffenestri ar agor gyda’r gwres ymlaen yn llawn pan mae’n bwrw eira y tu allan.”*
Hunanarlwyo, Gogledd

*“Rydym yn amcangyfrif y bydd costau ychwanegol nwy, trydan, TAW, YG, ardrethi busnes, costau cynyddol ar gynnyrch yn costio tua £90,000 yn ychwanegol y flwyddyn. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ni godi'r prisiau. Rwy’n meddwl ein bod yn wynebu dirwasgiad ac ni fydd llawer o fusnesau lletygarwch yn goroesi’r flwyddyn.”*
Tafarn, De-orllewin

*“Mae costau’n cynyddu’n gyffredinol, sy’n peri pryder mawr i ni. Nid oes llawer o lanhawyr o gwmpas ac mae llawer o lanhawyr yn codi eu prisiau. Mae rheoli gorbenion yn anodd iawn ar hyn o bryd.”*
Hunanarlwyo, Gogledd

**Gall busnesau sy'n defnyddio cryn dipyn o danwydd gael eu taro'n arbennig o wael**

9.5 Mae rhai gweithredwyr gweithgareddau ac atyniadau yn sensitif iawn i newid ym mhrisiau tanwydd ac argaeledd tanwydd oherwydd bod eu cerbydau’n rhan allweddol o’r hyn maent yn ei gynnig.

*“Tua diwedd y flwyddyn, rydym yn rhagweld problemau gyda chyflenwadau glo. Nid ydym yn gwybod ble i'w gael. Ni allwn dderbyn unrhyw lo o Rwsia oherwydd y sefyllfa bresennol yn Wcráin."*
Atyniad, Gogledd

*“Rydym yn gwmni cychod modur felly costau ynni ar gyfer y swyddfa a chostau tanwydd y cwch yw ein pryder mwyaf ar hyn o bryd”*
Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

**A fydd gwesteion yn teithio atom?**

9.6 O ran gallu defnyddwyr i wario, un o’r prif bryderon ymhlith busnesau yw cost tanwydd wrth deithio i Gymru. Mae hyn yn arbennig o bryderus i fusnesau mewn ardaloedd anghysbell a/neu'r rhai sydd â'u marchnad graidd yn bell i ffwrdd, megis Llundain.

*“Efallai y bydd y cynnydd ym mhrisiau’r tanwydd yn atal pobol rhag ymweld â chefn gwlad gan nad oes unrhyw ddewis ond defnyddio car yma”*
Hunanarlwyo, Canolbarth

*“Rydym eisoes wedi cael ambell un yn canslo oherwydd ni allant fforddio’r tanwydd i wneud y daith”*
Hunanarlwyo, Gogledd

*"Ni fydd pobl am yrru'r holl ffordd i Orllewin Cymru gyda phris tanwydd fel y mae."*
Llety â gwasanaeth, Canolbarth

**A all busnesau godi eu prisiau?**

9.7 Mae llawer o weithredwyr yn teimlo eu bod mewn sefyllfa amhosibl gan fod costau cynyddol yn eu gorfodi i godi eu prisiau, ond maent yn gwybod y gallent golli busnes yn sgil hynny.

*“Mae angen i ni ddefnyddio cryn dipyn o danwydd, felly mae’n rhaid i ni godi ein prisiau, a allai arwain at dderbyn llai o gwsmeriaid"*
Gweithredwr gweithgareddau, Gogledd

*"Mae rhai cwsmeriaid wedi derbyn y ffaith ein bod ni'n codi ein prisiau ond mae eraill yn nodi mai dyna'r pris a roddwyd iddynt wrth iddynt archebu."*
Gweithredwr gweithgareddau, Canolbarth

**Rhyfel yn Wcráin – mae barn yn amrywio ar yr effaith y gallai hyn ei chael ar dwristiaeth yma**

9.8 Dywed rhai eu bod yn pryderu am y rhyfel yn Wcráin ac yn nodi enghreifftiau o ddiffyg ymholiadau ers iddo ddechrau.

*“Mae nifer yr ymholiadau wedi gostwng ers i’r rhyfel ddechrau yn Wcráin dair wythnos yn ôl”*
Llety â gwasanaeth, Gogledd

“Ers i'r rhyfel ddechrau, rydym wedi sylwi nad ydyn ni wedi cael mwy o ymholiadau. Mae’n ymddangos bod ofn ar bobl wario eu harian neu fynd i ffwrdd ar hyn o bryd.”
Hunanarlwyo, Gogledd

9.9 Fodd bynnag, mae eraill yn credu y gallai'r rhyfel atal rhai pobl yn y DU rhag teithio dramor.

*"Rydym yn credu efallai y cawn ni fwy o archebion eleni oherwydd y rhyfel yn Wcráin a bod pobl yn rhy ofnus i deithio."*
Hunanarlwyo, Gogledd

9.10 Dywed un gweithredwr y bydd yn newid o dwristiaeth i gefnogi ffoaduriaid.

*“Rydyn ni’n rhoi ein heiddo i ffoaduriaid o Wcráin am ryw flwyddyn”*
Hunanarlwyo, De-ddwyrain

**Nid oes gan rai gweithredwyr unrhyw bryderon**

9.11 Mae tua chwarter o fusnesau (26%) yn dweud nad oes dim byd i boeni amdano eleni.

*“Mae busnes yn mynd yn eithaf da ar hyn o bryd felly nid ydym yn poeni am unrhyw beth mewn gwirionedd”*
Gweithredwr gweithgareddau, De-orllewin

## Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru 2022

Pa un o'r canlynol sy'n disgrifio eich math o fusnes orau?

- Llety â gwasanaeth ❑
- Llety hunan arlwyo ❑
- Maes carafannau / pebyll ❑
- Hostel ❑
- Atyniad ❑
- Cynal gweithgaredd ❑
- Bwyty / tafarn / caffi ❑

Q1 *A yw eich busnes wedi bod ar agor yn ystod y cyfnod o'r Flwyddyn Newydd hyd at nawr?*

- Ydi ❑
- Ydi - am rywfaint o'r cyfnod hwnnw (e.e wedi ailagor rhan o'r amser drwy'r cyfnod wedi cau'r gaeaf) ❑
- Nac ydi ❑

Q2 Faint o gwsmeriaid ydych chi wedi'u cael yn y cyfnod o'r Flwyddyn Newydd o'i gymharu a blwyddyn arferol?

- Mwy na'r arfer ❑
- Tua'r un peth â'r arfer ❑
- Llai na'r arfer ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Amherthnasol - ddim ar agor yr adeg hon o'r flwyddyn fel arfer ❑

Q3 *Gweithredwyr llety*

Gan edrych ymlaen, faint o'ch capasiti sydd wedi'i archebu ar gyfer gwyliau Pasg yr ysgol?

- Llawn ❑
- 75 - 99% ❑
- 50 - 74% ❑
- 25 - 49% ❑
- 1 - 24% ❑
- Dim archebion eto ❑
- Ddim yn berthnasol - ddim ar agor/ddim yn cymryd archebion ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q4 *Gweithredwyr llety*

*Faint o'ch capasiti sydd ar gael sydd wedi'i archebu ar gyfer Mai a dechrau Mehefin?*

- Llawn ❑
- 75 - 99% ❑
- 50 - 74% ❑
- 25 - 49% ❑
- 1 - 24% ❑
- Dim archebion eto ❑
- Ddim yn berthnasol - ddim ar agor/ddim yn cymryd archebion ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q5 *Cyfwelydd: cofnodwch yr holl sylwadau defnyddiol am berfformiad hyd yma neu archebion ar gyfer y Pasg*

______________________________________________________________________

______________________________

Q6 *A oes unrhyw fisoedd yn arbennig pan fydd gennych lefydd sbar fel arfer yr hoffech chi eu llenwi?*

- Ionawr ❑
- Chwefror ❑
- Mawrth ❑
- Ebrill ❑
- Mai ❑
- Mehefin ❑
- Gorffennaf ❑
- Awst ❑
- Medi ❑
- Hydref ❑
- Tachwedd ❑
- Rhagfyr ❑
- Na - iawn fel ydym ni ❑
- Ddim yn gwybod ❑

Q7 A ydych ar hyn o bryd yn ceisio llenwi unrhyw swyddi gwag staff, naill ai staff parhaol neu'n dymhorol?

- Ydw - parhaol ❑
- Ydw - tymhorol ❑
- Na ❑

Q8 *Os yn recriwtio*

A ydych chi'n cael unrhyw anhawster wrth ddod o hyd i'r staff sydd eu hangen arnoch?

- Ydyn - Cryn drafferthion ❑
- Ydyn - dipyn o drafferth ❑
- Na ❑
- Ddim yn gwybod eto ❑

Q9 *Beth, os o gwbl, y mae eich sefydliad yn ei wneud ar hyn o bryd i weithredu'n fwy cynaliadwy?*

Heb annog ticiwch bopeth sy'n berthnasol

- Gweithio gydag elusennau / ymddiriedolaethau cynaliadwyedd ❑
- Lleihau deunydd printiedig ❑
- Lleihau gwastraff materol a gynhyrchir/mwy o ddeunyddiau ailgylchadwy ❑
- Lleihau plastig untro ❑
- Lleihau golchi (e.e tywelion, dillad gwely) ❑
- Lleihau gwastraff bwyd ❑
- Gwasanaethau cynaliadwy a gynigir i gwsmeriaid - e.e. ail-lenwi dwr, gwefru cerbydau trydan ❑
- Dod o hyd i fwyd a diod yn fwy lleol ❑
- Dewis dulliau cynaliadwy o deithio ❑
- Teithio llai ❑
- Lleihau'r defnydd o ynni ❑
- Gwirio rhinweddau cynaliadwyedd cyflenwyr ❑
- Dim byd yn arbennig ❑
- Arall ❑

*Nodwch eich ymateb 'arall'* ______________________

Q10 Pa mor hyderus ydych chi'n teimlo am redeg y busnes yn broffidiol y flwyddyn yma?

*Cyfwelydd: Os yw'n atyniad a ariennir gan y cyhoedd, gofynnwch am hyder i dalu costau gweithredu os ydyn nhw'n teimlo nad yw'r gair 'proffidiol' yn berthnasol iddyn nhw*

- Hyderus iawn ❑
- Eithaf hyderus ❑
- Ddim yn hyderus ❑
- Ddim yn hyderus o gwbl ❑
- Dim yn gwybod ❑

Q11 *A oes unrhyw resymau penodol dros fod yn gadarnhaol am fusnes eleni*?

Heb annog

- Cyfyngiadau Covid yn dod i ben/pandemic yn gostwng ❑
- Lefel uchel o archebion ymlaen llaw gan ymwelwyr o'r DU ❑
- Yn disgwyl lefel uchel o archebion gan bobl yn mynd ar eu gwylia yn y DU ❑
- Lefel uchel o ymwelwyr sy'n dychwelyd ❑
- Ymwelwyr tramor yn dychwelyd ❑
- Ein marchnata ein hunain ❑
- Cynyrch/cynnigion ein hun ❑
- Mae ein rhanbarth ni o Gymru yn dod yn fwy poblogaidd ❑
- Does dim byd i fod yn bositif yn ei gylch ❑
- Ddim yn gwbod ❑
- Arall ❑

*Nodwch eich ymateb 'arall'* ______________________

Q12 A oes unrhyw achosion penodol i bryderu ynghylch busnes eleni?

- Rhyfel yn Ewrop ❑
- Os bydd Covid yn atgyfodi / cyfyngiadau yn cael eu hailgyflwyno ❑
- Rheolau covid gwahanol rhwng Cymru a Lloegr ❑
- Costau ynni yn codi ❑
- Costau gweithredu cynyddol ar wahan i ynni ❑
- Pobl heb arian i wario ❑
- Methu cael y staff ❑
- Costau staffio ❑
- Os bydd pobl ar eu gwyliau yn y DU yn dychwelyd i fynd dramor ❑
- Talu dyledion/adennill colledion yn ol ❑
- Diffyg twristiaid yn ein hardal ❑
- Busnes twristiaeth/lletygarwch arall yn yr ardal yn cau ❑
- Effeithiau tywydd garw ❑
- Cynnydd mewn diwylliant canslo ❑
- Does dim byd i boeni amdano ❑
- Ddim yn gwybod ❑
- Arall ❑

*Nodwch eich ymateb 'arall'* ______________________________

Q13 *Cyfwelydd: cofnodwch bob sylw defnyddiol am ddisgwyliadau ar gyfer y flwyddyn hon neu unrhyw beth arall a gwmpesir*

______________________________